

Mewnforio bwydydd risg uchel

Diffinio beth yw cynnyrch risg uchel, canllawiau ar lefelau afflatocsinau mewn bwyd a fewnforir, cyfyngiadau presennol yr Undeb Ewropeaidd (UE) a chanllawiau ar fewnforio cynnyrch penodol o wledydd nad ydynt yn yr UE.

Mae'r Deyrnas Unedig yn Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Cytunwyd ar fargen Brexit mewn egwyddor gyda'r UE. Mae angen i'r Deyrnas Unedig (DU) a'r UE gymeradwyo a llofnodi'r cytundeb ymadael. Byddant yna'n dechrau trafod trefniadau newydd. Byddai cyfnod pontio i baratoi ar gyfer rheolau newydd.

Os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb fargen, bydd yr wybodaeth ar y dudalen hon ond yn ddilys tan y bydd y DU yn ymadael â'r UE. Mae'r [canllawiau ar fewnforio bwyd a bwyd anifeiliaid risg uchel os na fydd bargaen yn cael ei tharo](#) yn esbonio yr hyn sydd angen i chi ei wneud os ydych chi'n bwriadu mewnforio bwyd a bwyd anifeiliaid risg uchel i'r DU ar ôl Brexit.

Gallwch chi hefyd gael rhagor o wybodaeth am y newidiadau y gallai fod angen i'ch busnes eu gwneud ar dudalen [Paratoi eich busnes ar gyfer Ymadael â'r UE](#).

Mae'n rhaid i'r holl gynhyrchion sy'n cael eu mewnforio i'r DU gydymffurfio â chyfraith yr UE ar halogion. Mae'r cyfreithiau hyn yn bodoli i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Mae mathau penodol o fwydydd sy'n cael eu hystyried yn rhai 'risg uchel'. Os ydych chi'n ymwneud â'r broses o fewnforio bwyd o drydedd gwlad, sef gwlad y tu allan i'r UE, mae'n rhaid i chi fod yn ymwybodol o'r canllawiau hyn.

Os nad yw cynhyrchion a gaiff eu mewnforio yn bodloni'r safonau cywir, ni fyddant yn cael mynediad i'r UE. Mae'n bwysig nodi mai dim ond trwy [fannau cyrraedd dynodedig \(DPE\)](#) y gellir mewnforio nwyddau, lle mae'n rhaid gwirio dogfennau ac efallai y bydd angen gwiriadau ffisegol cyn eu rhyddhau. Os ydych chi'n mewnforio bwyd sy'n cynnwys halogion, mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod yn mewnforio drwy Fan Cyrraedd Dynodedig sy'n gallu gwirio eich cynnyrch.

Gellir ystyried bod cynhyrchion yn rhai risg uchel os ydynt yn cynnwys:

- halogion – mycotocsinau ac afflatocsinau
- plaladdwyr
- salmonela

Mae gwbyodaeth am gynhyrchion risg uchel, gwlad tarddiad ac amllder gwiriadau ar gael yn Atodiad I o [Reoliad 669/2009](#) fel y'i diwygiwyd.

Caniateir i gynhyrchion sy'n cael eu rheoli ar y ffin symud yn fewndirol tra'n aros am ganlyniadau profion labordy. Fodd bynnag, rhaid rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y llwyth (consignment)

yn parhau i fod o dan reolaeth barhaus yr awdurdodau cymwys ac na ellir ymyrryd ag ef mewn unrhyw ffordd wrth ddisgwyl canlyniadau'r gwiriadau labordy. Dim ond gyda chytundeb yr awdurdod iechyd porthladd y gellir caniatáu hyn.

Hyd nes y bydd canlyniadau'r gwiriadau labordy yn hysbys, rhaid i'r llwyth gael ei storio mewn Cyfleuster Storio Dros Dro Allanol yn y DU. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau/ymholiadau, gallwch chi anfon e-bost at onward.transport@food.gov.uk.

[View Rhestr cyfleusterau storio dros dro allanol y DU \(Gorffennaf 2018\) Saesneg yn unig as PDF](#) (101.02 KB)

Lefelau afflatocsinau mewn bwyd wedi'i fewnforio

Mae afflatocsinau yn fath o docsin a ganfyddir yn naturiol mewn bwyd, a chânt eu cysylltu â chanser os cânt eu bwyta mewn lefelau uchel. Gall rhai sbeisys, cnau, ffrwythau wedi'u sychu a grawnfwydydd, gan gynnwys cynhyrchion grawnfwydydd fel grawnfwydydd brechwast, gynnwys lefelau uchel o afflatocsinau.

Mae terfynau ar lefelau'r afflatocsinau a ganiateir mewn bwydydd a fewnforir i'r UE, ac mae'n bosibl bod rhaid profi rhai cynhyrchion. Mae'r rheolaethau cyson sy'n effeithio ar fewnforio cynhyrchion penodol o rai gwledydd y tu allan i'r UE ar gael yma.

Er mwyn gweld y mesurau diogelu ar gyfer cynhyrchion bwyd penodol yr effeithir arnynt gan halogiad afflatocsinau, bydd gofyn i chi edrych ar [Reoliad 884/2015](#), gan gynnwys y diwygiadau yn [Rheoliad 2016/24](#) a [Rheoliad 2016/2106](#).

Bwydydd â chyfyngiadau cyfredol yr UE

Mae'r rheolaethau hyn yn bodoli i ddiogelu iechyd y cyhoedd a gallant naill ai atal mewnfurion neu nodi amodau mewnfurion. Yn y rhan fwyaf o achosion, dim ond trwy fannau cyrraedd dynodedig y gellir mewnfurion llwythi, mae'n rhaid gwirio dogfennau a gall fod angen samplu a dadansoddi neu archwilio cyn eu rhyddhau.

[View Tabl o fwydydd â chyfyngiadau cyfredol yr UE \(Ionawr 2019\) Saesneg yn unig as PDF](#) (381.23 KB)

Lefelau plaladdwyr mewn bwyd wedi'i fewnforio

Mae rhai cynhyrchion nad ydynt yn dod o anifeiliaid o drydydd gwledydd penodol yn cael eu rheoli oherwydd y risgiau o halogi â gweddillion plaladdwyr. Er mwyn gweld y rheolaethau diogelu ar y cynhyrchion bwyd hyn, bydd gofyn i chi edrych ar [Reoliad 2018/1660](#).

Mewnforio Guar Gum o India

Mae'r cynnyrch uchod mewn perygl o gael ei halogi gan pentachlorophenol (PCP) a diocsinau ac mae'n cael ei fewnforio i'r UE dan reolaeth [Rheoliad 2015/175](#).

Mewnforio cynnyrch o Tsieina

Mae'n rhaid i gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a gaiff eu mewnfurion o Tsieina gydymffurfio ag amodau iechyd penodol.

Gall y cynhyrchion canlynol ddod i mewn i'r UE cyn belled â bod llwyth yn cydymffurfio â'r rheolau canlynol:

- maent yn destun gwiriadau cyn-allforio am bresenoldeb chloramphenicol a nitroffwran,

sy'n feddyginaethau milfeddygol anghyfreithlon, a'u metabolion

- mae ganddynt ddatganiad wedi'i lofnodi gan yr awdurdod cymwys yn Tsieina gyda chanlyniadau'r gwiriadau dadansoddi

Cynhyrchion pysgodfeydd yw'r holl gynhyrchion sy'n deillio o bysgod. Mae dyframaeth yn fath o gynnyrch pysgodfeydd sydd wedi'i ffermio.

Mae'n rhaid i lwythi dyframaeth fod yn destun gwiriadau cyn allforio am bresenoldeb malachite green, crystal violet a'u metabolion. Mae'n rhaid i lwythi dyframaeth gynnwys datganiad wedi'i lofnodi gan yr awdurdod cymwys yn Tsieina gyda'r canlyniadau dadansoddi.

I weld y mesurau rheoli llawn a rhestr lawn o gynhyrchion dan rheolaeth, cymerwch gip ar [Benderfyniad y Comisiwn](#).

Mae'r cyfyngiadau mewnforio ar rai cynhyrchion dofednod o Tsieina yn parhau i fod ar waith oherwydd achos o fflw adar.

Mewnforio cynnyrch o Japan

Os ydych chi'n mewnforio cynnyrch o Japan, dylech chi ddilyn [Rheoliad UE 2016/6](#) fel y'i diwygiwyd gan [Reoliad UE 2017/2058](#) sy'n gosod amodau arbennig i reoli mewnforio bwyd anifeiliaid a bwyd sy'n dod o Japan neu a anfonir o Japan yn dilyn y ddamwain yng ngorsaf ynni niwclear Fukushima.

Bwydydd sydd wedi'u cyfyngu

Saws soi sy'n cynnwys 3-MCPD

Mae rhai mathau o saws soi yn cynnwys cemegyn peryglus o'r enw 3-MCPD. Mae cyfyngiadau ar lefelau 3-MCPD a ganiateir mewn cynhyrchion a gaiff eu mewnforio i'r DU a'r UE.

Maent fel a ganlyn:

- gall saws soi gynnwys lefelau o 3-MCPD heb fod yn uwch na 0.02 mg/kg
- mae hyn ar gyfer y cynnyrch hylif sy'n cynnwys 40% sylwedd sych, sydd gyfystyr ag uchafswm o 0.05 mg/kg yn y sylwedd sych

Gwaharddiad ar fewnforio melysion jeli

Mae cyfyngiadau o fewn yr UE ar ychwanegion a ganiateir mewn rhai melysion jeli gan fod perygl o dagu:

- Mae defnyddio, wrth gynhyrchu jeli cwpanau bach, ychwanegion penodol a nodir yn Atodiad II [Rheoliad 1333/2008](#), a gwerthu'r cwpanau hyn, wedi'i wahardd
- Yn ogystal, mae defnyddio E425 konjac mewn unrhyw felysion jeli, gan gynnwys jeli cwpanau bach, a gwerthu melysion o'r fath, wedi'i wahardd o dan [Reoliad 1333/2008](#)
- Caiff y darpariaethau hyn eu gorfodi gan [Reoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd \(Cymru\) 2013](#).

Gwaharddiad ar fewnforio kava kava

Mae'r 'Kava Kava', sy'n aelod o deulu'r pupryn, yn feddyginaeth berlysiuol draddodiadol ar gyfer trin gorbryder. Mae'r perlysiuyn wedi cael ei wahardd ers 2003. Mae hyn oherwydd pryderon am ei effaith wenwynig ar yr afu. Ni ellir mewnforio atchwanegiadau kava kava, nac unrhyw fwydydd sy'n cynnwys y perlysiuyn hwn, i'r UE.

Lliw (dye) anghyfreithlon mewn sbeisys ac olewau palmwydd

Mae rhai sbeisys penodol mewn perygl o gael eu halogi. Mae awdurdodau bwyd yr UE yn rheoleiddio mewnfurion risg uchel. Os yw lefel y lliw anghyfreithlon yn uwch na 0.5 rhan fesul miliwn (0.5ppm), cânt eu gwrthod.

Dyma'r rhywogaethau sydd mewn perygl o gael eu halogi â lliwiau anghyfreithlon:

- tsili wedi'i sychu
- cynhyrchion tsili
- powdwr cyri
- olew palmwydd